

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD  
YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN  
AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	14 Medi 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	29 Medi 2021

---

**PWNC**

Eitem 6: CYNLLUN BUSNES I GEFNOGI'R OPSIWN O GYNGOR GWYNEDD YN PARHAU I REDEG AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

---

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd y cynnig i wneud gwaith pellach i finiogi'r diffyg ariannol tebygol ac i wneud cais i Gyngor Gwynedd i asesu'r risgiau ynghlwm a'r cynllun busnes ac yn sgil hynny eu gallu i ymrwymo i gyfraniadau ariannol pellach i'r dyfodol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn ymgynghoriad Her Gwynedd penderfynodd y Cyngor na fyddai'n rhedeg Amgueddfa Lloyd George o 1 Ebrill 2017. Yn dilyn y penderfyniad cyhoeddodd Canghellor Llywodraeth Prydain y byddai'r bwch ariannol yn cael ei gyfarch gan Lywodraeth Prydain am 3 blynedd. Cytunodd y Cyngor am eleni i ariannu'r bwch.

Cytunodd yr Ymddiriedolwyr yn ôl ym mis Ionawr 2021 i gomisiynu Cynllun Busnes ar gyfer yr Amgueddfa drwy ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn trafodaeth ar y Cynllun Busnes cytunwyd i wneud cais i'r Cyngor i ymrwymo i gyfraniadau ariannol pellach i'r dyfodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---